

Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad

Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u disgrifiwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Papur Gwyn ar Ddiogelwch Adeiladau yn nodi cynigion ar gyfer diwygiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth sy'n cyfrannu at ddiogelwch adeiladau yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar newid deddfwriaethol ar bob cam o gylch oes adeiladau, yn ogystal â nodi dyheadau i newid diwylliant o ran y ffordd y caiff adeiladau eu dylunio, eu hadeiladu a'u rheoli.

Hoffem glywed gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad os ydynt o'r farn y bydd effeithiau nas nodwyd gennym neu os ydynt o'r farn y bydd yr effeithiau yn debygol o gael effaith fwy neu effaith lai na'r hyn a ragwelir gennym. Er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad yn hygyrch i amrywiaeth mor eang â phosibl o sefydliadau ac unigolion, rydym yn darparu fersiwn Gryno a fersiwn Hawdd ei Darllen o'r Papur Gwyn, yn ogystal â fideo esboniadol, a byddwn yn cynnal cyfres o ddiwyddiadau ymgynghori.

Rydym yn cynnig y dylai'r Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau newydd gwmpasu pob adeilad preswyl amlfeddiannaeth, hynny yw, adeiladau lle mae dwy neu fwy o anheddau, p'un a rennir drws ffrynt i'r adeilad hwnnw ai peidio. Rydym wedi diffinio'r adeiladau sydd o fewn cwmpas y cynigion hyn fel Categori 1¹ neu Gategori 2². Bydd y baich mwyaf ar y rhai sy'n dylunio, yn adeiladu neu'n rheoli adeiladau Categori 1.

Mae ein cynigion yn cwmpasu'r cam dylunio ac adeiladu o fewn eu cwmpas, a'r cam meddiannu pan fydd pobl yn byw ynddynt. Fel y cyfryw, bydd ein cynigion yn cael effaith ar gyrrff yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a hefyd ar unigolion, ond ni ddisgwyliwn y bydd unrhyw effaith uniongyrchol o ran hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010³ yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu oherwydd y nodweddion gwarchoddedig sydd gan bawb. Caiff pobl eu diogelu rhag gwahaniaethu yn y

¹ Bydd adeiladau Categori 1 yn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth â chwe llawr neu lawr sy'n 18 metr neu fwy o uchder uwchlaw lefel y ddaear, ond bydd yn bosibl newid y diffiniad hwn os bydd y dystiolaeth yn awgrymu y dylid ei ehangu.

² Byddai adeiladau Categori 2 yn eiddo preswyl â dwy annedd neu fwy nad ydynt yn fwy na 18 metr o uchder.

³ Deddf Cydraddoldeb 2010: <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15>

gweithle, pan fyddant yn defnyddio busnesau a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau a phan fyddant yn dod i gysylltiad â chyrrff cyhoeddus.

O ran y sefydliadau hynny sy'n darparu cyfleusterau neu wasanaethau (er enghraifft, Asiantau Rheoli sy'n darparu gwasanaeth i breswylwyr), efallai y bydd angen iddynt feddwl am yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ei wneud. Yn yr un modd, mae'n rhaid i fusnesau yn y diwydiant dylunio ac adeiladu ystyried eu heffaith ar eu cyflogeion. Mae hyn yn berthnasol o ran gwahaniaethu uniongyrchol oherwydd nodwedd warchoddedig neu wahaniaethu anuniongyrchol megis pan fydd sefydliad yn rhoi rheol neu bolisi ar waith sy'n effeithio ar rywun â nodwedd warchoddedig yn fwy na rhywun heb un.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff yn y sector cyhoeddus gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae'n rhaid i sefydliadau yn y sector preifat hefyd gydymffurfio â'r ddyletswydd os ydynt yn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus (gall hyn gynnwys rhai cymdeithasau tai pan fyddant yn cyflawni rhai o'u swyddogaethau fel landlord cymdeithasol).

Pan fydd ein cynigion yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddiwygio'r ffordd y maent yn ymgymryd â thasgau penodol, byddem yn disgwyl iddynt ystyried effeithiau ar gydraddoldebau wrth ddiwygio eu gweithdrefnau presennol lle ceir gofynion newydd, fel y byddent yn ei wneud yn achos unrhyw newid mewn rheoliad neu ddeddfwriaeth. Ni ddisgwyliwn y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar y sefydliadau.

Disgwyliwn mai ar breswylwyr sy'n byw mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y gyfundrefn newydd arfaethedig y bydd yr effaith fwyaf o ran cydraddoldeb. Ar gyfer y mwyafrif o'r rhai â nodweddion gwarchoddedig, ni ddisgwyliwn y bydd unrhyw wahaniaeth o ran effaith (cadarnhaol neu negyddol) ein cynigion o'u cymharu â'r rhai heb nodweddion gwarchoddedig tebyg. Y nodweddion gwarchoddedig sydd fwyaf tebygol o weld effaith o ganlyniad i'n cynigion yw oedran a phobl anabl ond – at ei gilydd – disgwyliwn y bydd yr effeithiau yn gadarnhaol.

Gall preswylwyr fod yn llesddeiliad yr annedd, yn rhentu'n breifat oddi wrth y lesddeiliad neu'n rhentu yn y sector tai cymdeithasol.

Nid oes gennym fynediad at ddata sy'n ymwneud â phroffil oedran neu economaidd-gymdeithasol preswylwyr mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y cynigion hyn. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd cyfran fwy o'r rhain ar y naill begwn neu'r llall o'r sbectwm oedran na'r boblogaeth gyffredinol – er enghraifft, nid oes eisiau ac nid oes angen gofod mathau eraill o dai ar breswylwyr iau neu hŷn. Er nad oes gennym ddata cadarn, rydym yn credu ei bod yn bosibl y byddai preswylwyr mewn tai amlfeddiannaeth trwyddedig neu'r sector tai cymdeithasol yn cynnwys preswylwyr mewn aelwydydd incwm isel, ac y byddai preswylwyr sy'n berchen ar anheddau lesddaliadol yn debygol o fod â statws economaidd-gymdeithasol uwch. Nid oes gennym unrhyw ddata ar breswylwyr sy'n rhentu'n breifat ond nad ydynt mewn tai amlfeddiannaeth.

Rydym yn credu bod y math o ddeiliadaeth sydd gan breswylwyr yn debygol o gael ei adlewyrchu yn y graddau y bydd yr effaith arnynt yn gadarnhaol neu'n negyddol o bosibl, ond rydym o'r farn bod effeithiau cadarnhaol yn debygol o fod yn drech na'r rhai negyddol.

Yn ein barn ni, mae'n llai tebygol y bydd preswylwyr yn y sector tai cymdeithasol yn gweld unrhyw effaith o ran cydraddoldeb o ganlyniad i'n cynigion, gan fod landlordiaid cymdeithasol yn fwy tebygol o fod wedi ystyried cydraddoldebau eisoes wrth ddarparu cartrefi a gwasanaethau ar gyfer eu tenantiaid.

O ran lesddeiliaid, mae'n bosibl y caiff taliadau gwasanaeth presennol eu cynyddu i dalu am gost rhai o'r gofynion diogelwch ychwanegol a geir yn ein cynigion. O ran tenantiaid yn y sector rhentu preifat, mae'n bosibl y caiff rhenti eu cynyddu os bydd landlordiaid yn wynebu costau ychwanegol (taliadau gwasanaeth) o ganlyniad i'n cynigion, y maent yn dewis eu trosglwyddo i'w tenantiaid. Rydym yn credu bod y costau ychwanegol hyn, at ei gilydd, yn rhoi digon o fudd i gyfiawnhau cynnydd o'r fath.

Dylai unrhyw gost ychwanegol gael ei chydbwysu ag effaith gadarnhaol gwell diogelwch adeiladau a thân, sy'n debygol o arwain at well iechyd meddwl a llesiant i breswylwyr. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Aseiad Effaith Economaidd, sy'n awgrymu y byddai modd rheoli'r costau ychwanegol dros gyfnod o 12 mis gan mwyaf.

Rydym yn credu y bydd effaith gadarnhaol i breswylwyr sydd â nam ar eu symudedd, eu synhwyrau neu eu gallu gwybyddol, neu sydd â chyflyrau meddygol eraill neu anafiadau a all achosi problemau a fyddai'n eu rhwystro neu'n eu hatal rhag gadael yr adeilad yn achos tân yn eu hadeilad. Rydym yn cynnig y dylai fod gan breswylwyr yr hawl i roi gwybodaeth i'r Person Atebol (gweler y Papur Gwyn am fanylion) a fyddai'n cynorthwyo diffoddwyr tân drwy eu hysbysu am eu lleoliad yn yr adeilad a natur unrhyw nam pe bai angen gwagio'r adeilad. Byddai dyletswydd ar y Person Atebol i gasglu gwybodaeth o'r fath, ystyried yr holl faterion o ran diogelu data, a rhoi'r wybodaeth i'r diffoddwyr tân pe bai angen.

Ar ôl ymgynghori ar y Papur Gwyn, byddwn yn adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn mynd ati i fireinio ein cynigion cyn cyflwyno newidiadau a deddfwriaeth yn y maes hwn. Yn ystod y broses hon, byddwn yn parhau i adolygu'r aseiad effaith hwn a'i ddiwygio wrth i'n cynigion gael eu mireinio ymhellach.

Mae'r adran isod yn nodi sut y gallai ein cynigion i greu Cyfundrefn Diogelwch Adeiladau gael effaith (cadarnhaol neu negyddol) ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Rydym yn ymwybodol mai'r prif grŵp y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt yw preswylwyr yn ystod y cam meddiannu ac, yn ein barn ni, ni fydd fawr ddim effaith ar gyflogeion, os o gwbl. Bydd angen uwchsgilio ar ôl i'r Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau gael ei chyflwyno ac, yn ein barn ni, dylai hyn fod o fewn datblygiad proffesiynol arferol eu gyrfa. Disgwylwn y bydd unrhyw effaith yn hyn o beth yr un fath ag unrhyw ran arall o'u datblygiad. Hoffem glywed safbwyntiau'r sector hwn os teimlir bod effaith anghymesur.

Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchoddedig:

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?
Oedran (meddyliwch am grwpiau oedran gwahanol)	Gall gael effaith anghymesur ar bobl hŷn ac iau oherwydd y math o gartref y maent yn byw ynddo. Effaith gadarnhaol o ran gwneud eu cartrefi yn fwy diogel ond effaith negyddol o ran y posibilrwydd o gostau am fesurau diogelwch ychwanegol a'r posibilrwydd y caiff rolau/cyfrifoldebau'r deiliad dyletswydd eu trosglwyddo iddynt.	Byddai tenantiaid / lesddeiliaid mewn eiddo sydd o fewn cwmpas y cynigion yn tueddu i fod yn iau (dechrau byw yn eu cartref eu hunain) neu'n hŷn (wedi ymddeol / symud i eiddo llai o faint), ond bydd effaith ar grwpiau oedran eraill. Mae'r asesiad effaith economaidd yn awgrymu ffigurau ar gyfer y costau ychwanegol, a ystyrir yn fforddiadwy.	O ran tenantiaid mewn eiddo rhent (tai cymdeithasol neu'r sector rhentu preifat), y landlord fydd yn gyfrifol am unrhyw gost ychwanegol am fesurau diogelwch adeiladau ond efallai y caiff cyfran ei throsglwyddo iddynt ar ffurf ffioedd rhentu cynyddol. Bydd y diogelwch ychwanegol, a'r tawelwch meddwl, yn cydbwysu'r gost ychwanegol, nad yw'n anghymesur o gostus.
Anabledd (meddyliwch am y mathau gwahanol o anabledd)	Yn ein barn ni, ni fydd effaith negyddol ar bobl anabl ond hoffem glywed gan y rhai sy'n byw mewn eiddo a gwmpesir. Bydd y Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr ar gyfer adeiladau Categori 1 yn cael effaith gadarnhaol gan y bydd angen ymgysylltu er mwyn ystyried materion o ran hygyrchedd ac felly ei bod yn debygol o roi	Er bod y sector tai cymdeithasol eisoes yn ymgysylltu â phreswylwyr, caiff hyn ei estyn bellach i bob adeilad uchel iawn. Drwy estyn arferion da o'r fath, bydd preswylwyr sy'n byw	Dim camau lliniaru gan ein bod yn disgwyl effeithiau cadarnhaol yn bennaf.

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?
	<p>mwy o gyfleoedd i bobl anabl ymgysylltu.</p> <p>Effaith gadarnhaol o ganlyniad i'r gofyniad arfaethedig i'w gwneud yn bosibl i breswylwyr roi gwybodaeth am unrhyw nam, anabledd neu ofynion arbennig sydd ganddynt, pe bai angen gwagio'r adeilad, i'r Person Atebol, y byddai'n rhaid iddo roi'r wybodaeth hon i ddiffoddwyr tân pe bai angen.</p>	<p>mewn adeiladau Categori 1 yn cael budd.</p> <p>Er bod gofynion i ddarparu Cynllun Personol Gadael Mewn Argyfwng ar gyfer unrhyw un mewn adeilad amhreswyl ar hyn o bryd, nid oes gofyniad o'r fath ar gyfer adeiladau preswyl ar hyn o bryd. Drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Person Atebol gasglu gwybodaeth berthnasol (os bydd y preswilydd yn dewis rhoi gwybodaeth o'r fath) a'i ddarparu os bydd angen gwagio adeilad, rhoddir mesurau diogelwch ychwanegol ar waith i'r rhai yr effeithir arnynt.</p>	
Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)	Nid oes gennym unrhyw wybodaeth am y grŵp hwn sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol arno.		Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai effaith ar y grŵp hwn fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Nid oes gennym unrhyw wybodaeth am y grŵp hwn sy'n awgrymu y		Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?
	byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol arno.		effaith ar y grŵp hwn fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn.
Hil (gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig gwahanol, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)	<p>Wrth lunio Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr, dylid ystyried nodweddion y preswylwyr wrth baratoi'r strategaeth a sicrhau ei bod yn hygyrch.</p> <p>Rydym yn cydnabod bod gan breswylwyr eiddo amlfeddiannaeth broffil mwy cyfnewidiol, sy'n debygol o gynnwys mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Mae'n debygol y bydd effaith gadarnhaol o ganlyniad i ddiogelwch ychwanegol, ond rydym yn sylweddoli y gall fod effaith negyddol o ran y costau ychwanegol a all gael eu trosglwyddo ar ffurf rhent uwch gan y landlord (y sector preifat neu'r sector cymdeithasol).</p>	Ar hyn o bryd, dim ond y sector tai rhent cymdeithasol fyddai'n ymgysylltu â phreswylwyr ar raddfa sylweddol fel mater o reol. Bydd estyn hyn i bob eiddo Categori 1 a gwmpesir yn fantais.	Dylai'r gofyniad i lunio Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr ar gyfer adeiladau Categori 1 sicrhau y caiff proffil hil preswylwyr, ac unrhyw anghenion penodol a nodwyd o ganlyniad i broffil o'r fath, eu hystyried.
Crefydd a chred a diffyg cred	Nid oes gennym unrhyw wybodaeth am y grŵp hwn sy'n awgrymu y		Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?
	byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol arno.		effaith ar y grŵp hwn fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn.
Rhyw / Rhywedd	Nid oes gennym unrhyw wybodaeth am y grŵp hwn sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol arno.		Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai effaith ar y grŵp hwn fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn.
Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)	Nid oes gennym unrhyw wybodaeth am y grŵp hwn sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol arno.		Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai effaith ar y grŵp hwn fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn.
Priodas a phartneriaeth sifil	Nid oes gennym unrhyw wybodaeth am y grŵp hwn sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol arno.		Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai effaith ar y grŵp hwn fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn.
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Rhaid effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i welliannau i ddiogelwch adeiladau i blant sy'n byw mewn aelwydydd a gwmpesir gan ein	Rydym wedi penderfynu nad oes angen asesiad llawn o'r effaith ar Hawliau Plant gan na fydd y newidiadau arfaethedig yn cael	Byddwn yn parhau i sicrhau y caiff plant eu hystyried wrth inni fireinio ein cynigion ymhellach ar ôl ymgynghori ar y Papur

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?
	<p>cynigion.</p> <p>Rhywfaint o effaith gadarnhaol ychwanegol i blant ag anableddau (fel yn achos unrhyw unigolyn ag anableddau), fel y'i nodir yn yr adran o'r tabl hwn sy'n ymwneud ag Anabledd.</p> <p>Mae'n bosibl i bobl ifanc o dan 18 oed fod yn denantiaid neu'n lesddeiliaid yn eu rhinwedd eu hunain. Os felly, byddai'r effaith ar y bobl ifanc hyn yr un fath ag ar gyfer unrhyw breswlydd dros 18 oed.</p>	<p>unrhyw effaith uniongyrchol ar hawliau plant. Pan fydd ein cynigion yn effeithio ar breswylwyr sy'n byw mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas ein cynigion, byddai unrhyw effeithiau ar blant yn rhai anuniongyrchol yn y rhan fwyaf o achosion gan y byddent yn effeithio ar yr oedolion yn yr aelwyd yn bennaf.</p> <p>Mae nifer y bobl ifanc sy'n brif breswlydd mewn eiddo sydd o fewn cwmpas ein cynigion yn debygol o fod yn fach, gan y bydd y rhan fwyaf yn dal i fyw gyda rhieni/gofalwyr neu wedi'u rhoi mewn llety â chymorth neu lety a rennir gan yr awdurdod lleol oherwydd eu hoedran.</p>	<p>Gwyn.</p> <p>Mae'r gofyniad ar y Person Atebol i ymgysylltu â phreswylwyr yn nodi y dylid ystyried proffil y preswylwyr a byddem yn disgwyl i hyn gynnwys gwneud unrhyw addasiad rhesymol ar gyfer pobl ifanc sy'n denantiaid (e.e. mae'r wybodaeth yn hygyrch, darperir gwybodaeth i gynrychiolydd enwebedig, megis gweithiwr cymorth, hefyd).</p>
Aelwydydd	Efallai y bydd ein cynigion yn cael effaith	Mae'r asesiad effaith economaidd yn	O ran tenantiaid mewn eiddo rhent (tai

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?
incwm isel	<p>anghymesur ar aelwydydd incwm isel sy'n rhentu eu heiddo oherwydd y math o gartref y maent yn byw ynddo, sy'n fwy tebygol o fod o fewn cwmpas ein cynigion yn ein barn ni. Rydym yn disgwyl effaith gadarnhaol o ran gwneud eu cartrefi yn fwy diogel ond effaith negyddol o bosibl oherwydd y posibilrwydd y caiff costau eu trosglwyddo iddynt ar ffurf rhenti uwch.</p>	<p>awgrymu ffigurau ar gyfer y costau ychwanegol, a ystyrir yn fforddiadwy.</p>	<p>cymdeithasol neu'r sector rhentu preifat), y landlord fydd yn gyfrifol am y gost ychwanegol ond efallai y caiff cyfran ei throsglwyddo iddynt ar ffurf ffioedd rhentu cynyddol.</p> <p>Bydd y diogelwch ychwanegol, a'r tawelwch meddwl, yn cydbwysu'r gost ychwanegol, nad yw'n anghymesur o gostus.</p>

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenedloedd Unedig

Yn ystod y cam meddiannu, rydym wedi cynnig rhai dyletswyddau newydd i breswylwyr a fydd yn nodi sut y gallant fyw yn eu cartrefi mewn ffyrdd sydd nid yn unig yn sicrhau eu diogelwch eu hunain ond hefyd ddiogelwch pobl eraill os ydynt yn byw mewn adeiladau amlfeddiannaeth. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys:

- Rhoi mynediad i'w heiddo ar gyfer gwiriadau diogelwch neu waith. Byddai'n ofynnol i'r Person Atebol roi rhybudd rhesymol i'r preswlydd cyn cael unrhyw fynediad.
- Darparu gwybodaeth resymol am waith a wneir yn eu heiddo.
- Gofyn am ganiatâd ymlaen llaw ar gyfer gwaith a oedd yn debygol o beryglu mesurau diogelwch tân.
- Gofyniad ar breswylwyr i beidio â thorri adrannu eu heiddo.

Mae'r cynigion a nodwyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid dyletswydd adeiladau Categori 1 fynd ati i ymgysylltu â phreswylwyr yn rheolaidd a rhoi gwybodaeth am yr agweddau diogelwch ar eu cartrefi a'u hadeiladau. Caiff yr agweddau hyn eu cyflawni gan ddeiliaid dyletswydd sy'n gyfrifol am yr adeilad ond gallwn gefnogi hyn drwy sicrhau bod canllawiau addas sy'n tynnu sylw at yr ystyriaethau hyn ac sy'n egluro bod yn rhaid i'r rhai sy'n darparu gwybodaeth wneud hynny mewn ffordd hygyrch ac addas i'r oedran.

Mae angen gwneud rhagor o waith o ran yr elfen cofrestru a thrwyddedu ac ystyried yn benodol yr effaith o ran a ganiateir i unigolyn reoli ei eiddo ei hun ac ati.

Rydym am gael barn preswylwyr ac arbenigwyr fel ei gilydd ar y mater hwn er mwyn helpu i lywio ein proses gwneud penderfyniadau yn y maes hwn yn ystod y cyfnod ymgynghori ar ddechrau 2021.

Hawliau Dynol	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau negyddol?
<p>Erthygl 8 Yr hawl i barch at eich bywyd preifat a theuluol</p> <p>Protocol 1 Erthygl 1 Yr hawl i fwynhau eiddo'n heddychlon</p>	<p>Mynediad i eiddo er mwyn cynnal archwiliadau sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch adeiladau.</p> <p>Gofyniad i beidio ag amharu ar adrannu / mesurau diogelwch tân</p> <p>Mae'n rhaid i'r deiliad dyletswydd fod yn berson addas a phriodol i reoli eiddo (yn ystod y cam meddiannu). Byddai angen i berson sy'n methu'r prawf hwn gyflogi rhywun i reoli'r</p>		<p>Fel yn achos llety rhent, byddai angen rhoi hysbysiad ysgrifenedig cyn gofyn am gael mynediad.</p> <p>Addysg / ymwybyddiaeth o ganlyniadau posibl difrod i nodweddion diogelwch tân</p> <p>Byddai effaith negyddol fach iawn ar yr unigolyn heblaw am broblemau posibl o ran enw da. Bydd y gofynion ar gyfer bod yn ddeiliad dyletswydd yn nodi sut y gallai unigolyn asesu a yw'n debygol o fetu'r prawf a fyddai'n lliniaru unrhyw niwed i'w enw</p>

Hawliau Dynol	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau negyddol?
	eiddo ar ei ran, a allai arwain at gost ychwanegol.		<p>da.</p> <p>Mae'n debygol y byddai unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i gyflogi asiant rheoli neu berson arall i weithredu fel deiliad dyletswydd yn cael eu trosglwyddo i denantiaid/lesddeiliaid ac felly cyfyngedig fyddai'r effaith ar yr unigolyn ei hun.</p>